Table of Contents

20151006 Eitem 6 - Llys Ynadon Dolgellau.pdf 2
20151006 Eitem 7 - Blaenraglen Waith Cabinet.pdf 7

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date: 06/10/2015

PWNC / ***SUBJECT***

Eitem 6: Llys Ynadon Dolgellau – Ymateb i'r Ymgynghoriad Llysoedd

Item 6: Dolgellau Magistrates' Court – Response to the Court Consultation

PENDERFYNIAD / ***DECISION***

Argymell bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig o fewn y ddogfen ymgynghorol i gau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau, gan nodi hefyd pe byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw presenoldeb yn Nolgellau efallai y byddai modd cydweithio i sicrhau lleoliad priodol ar gyfer darpariaeth Gwasanaeth Cyfiawnder yn ardal Dolgellau.

Recommend that the Council objects to the proposal within the consultation document to close the Dolgellau Magistrates' Court and Crown Court, noting also that should the Ministry of Justice keep a presence at Dolgellau it could be possible to collaborate to ensure an appropriate location for the provision of Justice Services in the Dolgellau area.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / ***REASON FOR THE DECISION***

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y broses o gynnal ymgynghoriad cenedlaethol ar ddyfodol ystâd y Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r ymgynghoriad hyn mae argymhelliad i gau 11 Llys a Thribiwnlys yng Nghymru, gan gynnwys Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yng Ngwynedd.

Cynigir cau y Llys gan drosglwyddo gwrandawiadau i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Nodir hefyd y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ail-leoli gwaith sy'n deillio o ardal sydd i'r de o ddalgylch Dolgellau i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

Noda'r ymgynghoriad nad yw'r adeilad Llys presennol yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder i'r dyfodol oherwydd oedran yr adeilad, gofod cyfyngedig, yr angen i hebrwng carcharorion ar y palmant cyhoeddus a'r ffaith nad oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion. Yn ogystal pe byddai'r Llys yn aros ar agor byddai angen cyflawni gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio sylweddol er mwyn dod ag o i fyny i safon tra ceir darpariaeth modern ac addas i bwrpas eisoes yn Llysoedd Caernarfon ac Aberystwyth.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi ymrwymiad y Weinyddiaeth i weithio gyda chymunedau gwledig ac i glywed eu barn ar ddarparu ffyrdd amgen i'r cyhoedd o fewn yr ardaloedd hynny gael mynediad at y system gyfiawnder. Tra nodir y gall hyn

gynnwys ddefnyddio adeiladau dinesig neu gyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawiadau achlysurol, cyswllt fideo, neu wrandawiadau dros y ffôn neu ar bapur i osgoi teithio yn gyfan gwbl nid oes gwybodaeth fanwl wedi ei gynnwys ar gyfer beth fyddai yn ei olygu yn achos yr achosion y delir ag hwy yn Nolgellau ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae 73% o'r dalgylch y mae'r Llys yn ei wasanaethu yn gallu teithio i'r Llys mewn car mewn llai na awr tra mae'r gweddill yn gallu gwneud hynny rhwng awr a 2 awr. Byddai cau y Llys yn golygu mai dim ond 15% o'r cymunedau hynny fyddai'n medru teithio i'r Llys o dan awr, 39% hefo taith rhwng awr a 2 awr tra byddai 46% wedyn hefo taith o dros 2 awr mewn car.

Wrth edrych ar amser teithio ar drafnidiaeth cyhoeddus ar hyn o bryd mae 34% o'r dalgylch a wasanaethir yn gallu teithio i'r Llys o dan awr, 44% yn gallu teithio yno rhwng awr a 2 awr gyda 19% ddim yn gallu gwneud y siwrnai. O gau y Llys byddai 14% hefo siwrnai o rhwng awr a 2 awr, 19% gyda siwrnai o dros 2 awr a 67% ddim yn gallu gwneud y siwrnai.

O ganlyniad mae lle i gredu y byddai gweithredu'r argymhellion yn debygol o olygu cyfyngu mynediad mwyafrif yr unigolion i'r system gyfiawnder. Dengys ymchwil hefyd fod cyswllt rhwng lefelau isel o berchnogaeth car a lefelau isel o incwm ac amddifadedd materol felly byddai gweithredu'r argymhellion yn debygol effeithio ar y rhai tlotaf o fewn ein cymunedau.

Tra nodir bwriad i gyflwyno trefniadau amgen er mwyn lleihau'r angen i gwrdd wyneb yn wyneb nid yw'r wybodaeth a gyflwynir ar hyn o bryd yn ein galluogi i sefydlu beth yw'r gyfran o'r achosion yr ymdrinnir a hwy ar hyn o bryd yn y Llys y gellid delio a hwy yn y modd hynny a faint fyddai'n symud i lysoedd Caernarfon ac Aberystwyth felly mae'n anodd sefydlu beth fyddai'r union effaith.

Mae'r adolygiad i weld yn canolbwyntio ar gostau ac "effeithlonrwydd" defnydd yr ased, ond heblaw am awgrymu trefniadaeth annelwig ar gyfer trefniadau neilltuol, nid yw'n cyffwrdd ar yr egwyddor y dylai bobl Gwynedd gael mynediad mor rhwydd a phosibl i weinyddiaeth cyfiawnder sef holl bwrpas y gwasanaeth.

Nid oes digon o fanylion yn yr ymgynghoriad am sut a phwy fyddai'n ysgwyddo'r gost o gynnal a chadw'r adeilad, sy'n un cofrestredig, pe bai'r Llys yn cau.

Byddai symud y gwrandawiadau cyfiawnder i Gaernarfon neu Aberystwyth hefyd yn creu costau ychwanegol i eraill sydd ynghlwm â'r broses, megis yr heddlu, cyfreithwyr, a swyddogion y Cyngor ei hun.

Argymhellir felly fod y Cyngor yn gwrthwynebu'n llwyr y cynigion yma gan awgrymu fod yr Adran Weinyddiaeth Cyfiawnder yn pwyso'r angen i sicrhau mynediad.

The Ministry of Justice is in the process of carrying out a national consultation on the future of the Court and Tribunal estate in England and Wales. As part of this consultation, there is a recommendation to close 11 Courts and Tribunals in Wales, including the Dolgellau Magistrates' Court and Crown Court in Gwynedd.

The proposal is to close the Court and to move hearings to the Caernarfon Criminal Justice Centre. It is also noted that consideration will be given to relocating work which derives from areas to the south of the Dolgellau catchment to the Aberystwyth Justice Centre.

The consultation notes that the current Court building is not suitable to provide justice services in future due to its age, limited space, the need to escort prisoners on the public pavement and the fact that it is not possible to separate victims, witnesses and defendants. In addition, should the Court remain open substantial maintenance and upgrade work would need to be carried out in order to bring it up to standard whilst modern and fit-for-purpose provision is already available at the Caernarfon and Aberystwyth Courts.

The consultation document notes the commitment of the Ministry to work with rural communities and to hear their views on the provision of alternative ways for the public in those areas to access the justice system. Whilst it is noted that this could include using other civic or public building for occasional hearings, video link, or hearings over the phone or on paper to avoid travelling altogether, no detailed information has been included about what it would mean in the case of the cases currently dealt with in Dolgellau.

At present, 73% of the catchment which the Court serves can travel to the Court by car in less than an hour whilst the rest can do so in an hour to two hours. Closing the Court would mean that only 15% of the those communities would be able to travel to the Court in less than an hour, 39% with a journey of between one and two hours whilst 46% would have a journey of over two hours by car.

In terms of journey times via public transport, at present 34% of the catchment served can travel to the Court in under an hour, 44% can travel there in an hour to two hours, whilst 19% could not make the journey. If the Court was closed, 14% would have a journey of between one and two hours, 19% would have a journey of over two hours and 67% would not be able to make the journey.

Consequently, it is believed that implementing the recommendations would likely mean that the majority of individuals would have a restricted access to the justice system. Research also shows that there is a link between low levels of car ownership and low levels of income and material deprivation therefore, implementing the recommendations would likely impact on the poorest people in our communities.

Whilst the intention to introduce alternative arrangements in order to reduce the need to meet face-to-face is noted, the information currently presented does not allow us to establish what proportion of the cases currently dealt with in the Court could be dealt with in this way and how many would move to Caernarfon and Aberystwyth courts, therefore, it is difficult to establish what the actual impact would be.

The review seems to focus on the costs and "efficiency" of the use of the asset; however, other than suggesting vague procedures for particular arrangements, it

does not touch on the principle that the people of Gwynedd should have easy access to the justice system, which is the whole purpose of the service.

There is not enough detail in the consultation about how and who would shoulder the cost of maintaining the building, which is a listed building, should the Court close.

Moving justice hearings to Caernarfon or Aberystwyth would also incur additional costs to others involved in the process such as the police, solicitors and Council officers.

It is therefore recommended that the Council objects to these proposals in their entirety and suggests that the Ministry of Justice considers the need to ensure access.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / *OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS*

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Dai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb.

The report submitted by the Cabinet Member for Housing, Customer Care, Libraries and Equality was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / *THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS*

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

No observations in relation to proprierty.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Rwy'n cydnabod nad yw adeilad Llys Dolgellau yn cwrdd â safonau ar hyn o bryd, a bod pob gwasanaeth cyhoeddus angen darganfod arbedion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n cytuno gyda sylwadau'r awdur y gallai cau'r ddarpariaeth yn y dref arwain at gyfyngu mynediad rhai unigolion i'r system gyfiawnder.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at y cyfnod o amser a gymerir i deithio o Ddolgellau i Gaernarfon ac Aberystwyth, ond fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos,